OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 Rhif 352 (Cy. 10)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Gorchymyn BG plc (Gwerth Ardrethol) (Cymru) 2000

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *31 Ionawr 2000* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Ebrill 2000* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 140(4) a 143(1) a (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) a pharagraff 3(2) o Atodlen 6 iddi, ac a freiniwyd ynddo bellach i'r graddau y mae'n arferadwy yng Nghymru(**2**).

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn BG plc (Gwerth Ardrethol) (Cymru) 2000 a daw i rym ar 1 Ebrill 2000

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru'n unig.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn –

ystyr "BG plc" ("*BG plc*") yw'r cwmni a gofrestir yn yr enw hwnnw ar 9 Tachwedd 1999;

ystyr "blwyddyn" ("*year*") yw blwyddyn ariannol daladwy;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988; ac

ystyr "hereditamentau nwy Cymru" ("*Welsh Gas hereditaments*") yw hereditamentau annomestig a feddiennir (neu, os nas meddiennir, a berchnogir) gan BG plc y mae'n ofynnol iddynt yn rhinwedd rheoliad 3(1) o Reoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) 1999(**3**) a Rhan 3 o'r Atodlen iddynt gael eu dangos ar y rhestr ardrethu canolog; ac

(**1**) 1988 c. 41. Section 143(2) is amended by paragraph 72(2) of Schedule 5 to the Local Government and Housing Act 1989 (c. 42). Paragraph 3(2) of Schedule 6 is amended by paragraph 38(13) of Schedule 5 to the 1989 Act. See section 146(6) of the 1988 Act for the definition of "prescribed".

(**2**) See the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(**3**) S.I. 1999/ 3453(W.50)

**Gwerth ardrethol**

**3.** Yn achos hereditamentau nwy Cymru, ni fydd paragraffau 2 i 2B(**4**) o Atodlen 6 i'r Ddeddf yn gymwys mewn unrhyw flwyddyn sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2000 ac mewn unrhyw flwyddyn o'r fath gwerth ardrethol hereditamentau nwy Cymru fydd £32,059,000.

**Diddymu ac eithrio**

**4.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), diddymir drwy hyn Gorchymyn British Gas plc (Gwerthoedd Ardrethol) 1994(**5**) o'r 1 Ebrill 2000 ymlaen.

(2) Bydd Gorchymyn British Gas plc (Gwerthoedd Ardrethol) 1994 yn parhau'n effeithiol ar ac ar ôl 1 Ebrill 2000 at ddibenion neu ddibenion sy'n gysylltiedig ag—

(a) unrhyw newid i restr mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2000; neu

(b) unrhyw ddarpariaeth a wnaed o dan reoliadau a wnaed o dan adran 58(**6**) o'r Ddeddf (darpariaeth arbennig ar gyfer 1995 ymlaen) ynglŷn â'r swm taladwy am hereditament am gyfnod perthnasol fel y'i ddiffinnir yn yr adran honno.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**7**).

*Dafydd Elis Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

31 Ionawr 2000

(**4**) Paragraph 2 is amended by, and paragraphs 2A and 2B are inserted by, paragraph 38(3) to (11) of Schedule 5 to the Local Government and Housing Act 1989.
(**5**) S.I. 1994/3283.
(**6**) Section 58 is amended by paragraph 68 of Schedule 13 to the Local Government Finance Act 1992 (c. 14) and section 2 of the Non-Domestic Rating Act 1994.
(**7**) 1998 c. 38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

O dan baragraff 3(2) o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol drwy orchymyn ddarparu, yn achos hereditamentau annomestig sydd i'w dangos ar y rhestr ardrethu canolog i Gymru nad yw rheolau arferol prisio ar gyfer ardrethu a gynhwysir ym mharagraffau 2 i 2B o'r Atodlen honno yn gymwys, ac yn lle hynny eu gwerth ardrethol fydd y swm a bennir yn y gorchymyn neu'r hyn a benderfynir yn unol â rheolau a ragnodir. Breinir y pwerau hyn bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'n ofynnol i hereditamentau nwy a feddiennir (neu, os nas meddiennir, a berchnogir) gan BG plc (sydd wedi disodli British Gas plc at y dibenion hyn) i gael eu dangos ar y rhestr ardrethu canolog a luniwyd ar 1 Ebrill 2000, yn rhinwedd Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) 1999. Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu nad yw paragraffau 2 i 2B yn gymwys i'r hereditamentau hynny.

Ar gyfer y flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2000 pennir £32,059,000 fel gwerth ardrethol yr hereditamentau nwy a leolir yng Nghymru. Bydd y gwerth ardrethol hwn yn gymwys hefyd am y blynyddoedd sy'n dilyn.

Mae Erthygl 3(1) yn diddymu Gorchymyn British Gas plc (Gwerthoedd Ardrethol) 1994 o'r 1 Ebrill 2000 ymlaen. Bydd y darpariaethau hyn yn dal i fod yn weithredol i'r dibenion a grybwyllir yn erthygl 3(2).